Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Yr Eglwys Newydd
# Neuadd y Sgowtiaid
# Heol Penlline
# Yr Eglwys Newydd
# CF14 2AD

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/03/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Yr Eglwys Newydd, sydd yn cwrdd mewn neuadd y sgowtiaid, yn Yr Eglwys Newydd, yn awdurdod lleol Caerdydd. Mae'r lleoliad yn agor am ddau ddiwrnod yr wythnos a thri bore.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.  Mae ychydig o'r plant yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu ar hyn o bryd.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae ychydig o blant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi chwech ymarferydd gan gynnwys y ddau arweinydd. Dechreuodd yr arweinwyr yn ei swyddi ym mis Mawrth 2011 a mis Gorffennaf 2016.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Awst 2014 a gan Estyn ym mis Gorffennaf 2012.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn llwyddo i gyflawni'n dda ym mhob maes dysgu ac yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio'n ddiwyd yn ystod tasgau
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn synhwyrol ac maent yn gwrtais
- profiadau dysgu heriol yn diwallu anghenion a diddordebau plant yn ardderchog ac yn eu sbarduno i ddysgu'n llwyddiannus iawn
- cwricwlwm eithriadol o eang, cytbwys ac ysgogol yn cael ei gefnogi'n wych gan amgylchedd dysgu difyr ac ysbrydoledig
- arferion addysgu ac asesu'r ymarferwyr yn herio'r plant yn bwrpasol
- ymarferwyr yn gofalu am a chefnogi'r plant yn gydwybodol
- perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr oedolion a'r plant
- defnydd arloesol o'r adnoddau, tu fewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn llywio a chynllunio cyfeiriad strategol ardderchog i'r dyfodol
- gweledigaeth yr arweinwyr i gynllunio a gosod amgylchedd dysgu dyddiol ar gyfer dysgu'r plant yn ysgogol ac arloesol
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn fyw ac wedi eu hymgorffori a'u gwreiddio'n gadarn ym mywyd y lleoliad
- arweinwyr yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ddiwyd, yn monitro'r ddarpariaeth yn gywrain ac yn asesu deilliannau'r plant yn finiog
- gan ymarferwyr agweddau cadarnhaol a gweithredol iawn tuag at ddatblygiad a hyfforddiant proffesiynol
- arweinwyr ac ymarferwyr yn rhannu eu harferion ardderchog, parthed y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, gyda lleoliadau eraill yn yr awdurdod lleol a thu hwnt
- gwaith dyddiol a thymor hir yr arweinwyr a'r pwyllgor rheoli'n anelu'n gydwybodol at wella pob agwedd ar waith y lleoliad yn gyson
- yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn defnyddio'r adeilad a'r ardal allanol i ddarparu adnoddau o'r safonau gorau posibl o fewn y gyllideb
- cyllid a grantiau'n cael eu gwario'n uniongyrchol ar ddarpariaeth arloesol, sy'n anelu'n uniongyrchol at wella deilliannau'r plant

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i bob plentyn ddatblygu eu hannibyniaeth yn ystod amser byrbryd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud o leiaf gynnydd da o'u mannau cychwyn sydd yn debyg i, neu'n uwch na'r, hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Maent yn gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd a gydag oedolion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn y Gymraeg yn effeithiol mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws, heb anogaeth oedolion. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn y Gymraeg yn synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig. Maent yn awyddus i ymateb yn fyrlymus i holi a heriau'r ymarferwyr. Mae hyn yn amlwg yn ystod gweithgareddau torfol wrth iddynt drafod storïau'n hyderus ac wrth iddynt ddadlau'n ddwys ar sut i bysgota'n fwriadus i ddal pysgodyn o ddrws yr iglŵ.

Mae llawer o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn y llyfrgell a'r ardal dawel fel darllenwyr ifanc deallus. Maent yn ymateb i gynnwys llyfrau mewn parau ac unigolion yn synhwyrol. Mae llawer o'r plant yn deall bod gwahanol amgylchiadau yn effeithio ar deimladau cymeriadau mewn storïau, fel adnabod bod yr oerfel a'r eira yn bwysig i fywyd pengwin. O ganlyniad, maent yn deall diben y lluniau a'r ysgrifen ac yn trafod cymeriadau cyfarwydd yn wybodus.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau'n bwrpasol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau yn llwyddiannus â phrofiadau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, maent yn defnyddio paent gwyn i adlewyrchu dyn eira sy'n toddi a phensiliau ar bapur i gofnodi nodweddion y tywydd. Mae lleiafrif o'r plant yn dechrau adnabod eu henwau eu hunain ac mae ychydig ohonynt yn ffurfio llythrennau a rhifau'n dda, mewn ffurfiau adnabyddadwy, yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol wrth iddynt chwarae ac arbrofi â rhifau'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn defnyddio gefel yn effeithlon i gasglu botymau i gyfatebu â rhif y dyn eira, a mesur taldra gwrthrychau â thâp mesur yn yr ardal adeiladu.

Mae llawer o'r plant yn adnabod, enwi a chyfrif rhifau i 10 yn annibynnol. Mae ychydig ohonynt yn dechrau cyfrif i 10 a thu hwnt yn gywir wrth ddidoli siapiau a gwrthrychau a threfnu blociau â symbolau arnynt i adlewyrchu nodweddion y tywydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall bod gwahaniaethau mewn maint yn gallu effeithio ar bwysau gwrthrych. Gwelir hyn wrth iddynt ddefnyddio blociau'n synhwyrol i greu pont gadarn. O ganlyniad, maent yn esbonio'n llwyddiannus y gwrthrychau 'mawr' a 'bach', 'tal' a 'byr', 'trwm' ac 'ysgafn' ac os yw'r gwrthrych yn 'ganolig' o'i gymharu â'r lleill.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer TGCh yn llwyddiannus. Maent yn rheoli teganau electronig yn hyderus ac yn dewis defnyddio camera i gofnodi eu gwaith yn annibynnol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio llechi electronig i

ymchwilio am wybodaeth sy'n perthyn i'w themâu ac sy'n ennyn eu diddordebau. O ganlyniad, maent yn defnyddio meddalwedd addysgol a chaledwedd y lleoliad yn fwriadus i wella'u medrau TGCh.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau'n effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn arbrofi â siapiau anifeiliaid sydd wedi rhewi, a gwrthrychau eraill fel pengwiniaid, i drafod beth sydd yn arnofio neu suddo yn y dŵr yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn greadigol ac arbrofol pan fyddant yn chwarae offeryn yn y gerddorfa a defnyddio cyfarpar priodol i greu teisen yn y gegin fwd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn bwrpasol. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw dringo a llithro ar gyfarpar allanol, dawnsio i gerddoriaeth, gyrru cerbydau a beiciau yn yr awyr agored a chwilio am drychfilod yn frwd yn yr ardal goed.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad ac yn ystod eu hamser yno. Maent yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n ddiwyd yn ystod tasgau. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau'r gweithgareddau ysgogol ym mhob maes dysgu ac maent yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd a heriol, er enghraifft wrth iddynt greu a defnyddio ffrâm deledu i ddarlledu fel dyn y tywydd.

Mae llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac maent yn gweithio'n gwbl annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae i ddatrys yr heriau a osodwyd iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau meddylgar am ba feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau fel chwarae rôl adeiladwr â'i ficser neu drwy fod yn gogydd yn y gegin fwd. Maent yn esbonio'n hyderus pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt a beth sydd yn eu cymell i lwyddo. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dechrau mynegi eu barn a'u hoffterau personol yn llwyddiannus, yn enwedig wrth gynnig mewnbwn i gynnwys y themâu.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb i oedolion a'i gilydd, sy'n cyfrannu at ethos cynhyrchiol. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n synhwyrol ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn llinellu i wisgo'u cotiau a golchi a sychu eu dwylo cyn byrbryd. Ar ôl defnyddio'r toiled a chwarae anniben, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb anogaeth gan ymarferwyr. Mae hyn yn adlewyrchu eu dealltwriaeth gadarn bod glendid yn bwysig ac yn cyfrannu tuag at fywyd iachus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn darparu profiadau heriol ac ysgogol iawn sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn hollol lwyddiannus. Mae'r profiadau dysgu'n fywiog a diddorol dros ben ac yn sbarduno'r plant i ddysgu'n gynhyrchiol.

Mae'r ymarferwyr yn drwyadl wrth baratoi cyfleoedd eithriadol o werthfawr i sicrhau bod y plant yn rhan o gynllunio'r themâu. Maent yn rhoi cyfleoedd dyddiol i blant fynegi eu diddordebau ac mae'r ymarferwyr yn ail-strwythuro'r ddarpariaeth i efelychu syniadau a diddordebau'r plant yn ystyrlon. Er enghraifft, maent newydd newid yr ardaloedd chwarae rôl i ymestyn dealltwriaeth y plant o rifau ac i herio'r plant i fesur a phwyso gwrthrychau'n bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn trafod a pharatoi'r themâu a'r heriau yn fanwl mewn cyfarfodydd wythnosol. Mae'r cynllunio arloesol yn sicrhau bod gweithgareddau'r thema yn cyfatebu'n bwrpasol ag anghenion y plant. Mae'r cynllunio a'r gweithgareddau dyddiol yn cysylltu'n gyson a synhwyrol â strategaethau asesu'r lleoliad i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn drylwyr a thryloyw. Mae'r arfer hon yn reddfol i'r holl ymarferwyr ac yn effeithiol iawn wrth ddatblygu medrau allweddol ac ehangach y plant. Mae'n herio bron pob un o'r plant yn systematig trwy dasgau adeiladol ac atgyfnerthol, sy'n deillio'n uniongyrchol o'u dysgu blaenorol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysbrydoledig yn yr ardal allanol sy'n effeithio ar ddysgu'r plant yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog iawn i'r plant greu marciau ac i arbrofi â rhifau yn effeithiol iawn mewn gweithgareddau ymarferol wrth blannu hadau ac ymchwilio i fywydau trychfilod. Mae'r ymarferwyr yn dilyn trywyddau'r plant yn fedrus iawn wrth gyfoethogi a newid y gweithgareddau ymhellach yn ystod y sesiwn. Mae'r profiadau dysgu cyffrous a mentrus yn cynnwys tasgau i ysgogi medrau meddwl plant yn eithriadol o dda fel byw yn yr Arctig mewn iglŵ a pharatoi siocled poeth i gynhesu'r corff. Mae'r profiadau creadigol iawn yn darparu parhad a dilyniant bwriadus i'r dysgu.

Mae'r cwricwlwm yn herio'r holl blant yn drylwyr ym mhob maes dysgu, yn enwedig mewn tasgau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dyfais electronig i arbrofi ac ymholi gyda synau gwahanol a chofnodi'r canlyniadau wrth wneud marciau. Mae'r cwricwlwm aeddfed a chydlynol yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant yn ddyfeisgar ac yn eu herio i feddwl yn gywrain. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn defnyddio cegin fwd tu allan ac ardal drafod ar foncyffion coed yn yr ardal goed i ymestyn profiadau'r plant ymhellach na'u harfer. Mae hyn yn ysbrydoli parodrwydd y plant i gynnig syniadau am y camau nesaf yn eu dysgu, sy'n weladwy ar hysbysfwrdd y plant.

Mae'r holl ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol gyda'r plant. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r ymarferwyr yn ofalus yn ystod gweithgareddau dan do ac awyr agored i sicrhau bod cyfleoedd cyson ar gael yn ystod y tasgau ffocws a'r tasgau parhaus i ddatblygu ac atgynerthu'r iaith Gymraeg. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith yn dda iawn ac mae hyn yn effeithio ar ddefnydd y plant o'r iaith yn gadarnhaol, mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r Gymraeg mor aml ag y bo modd yn eu dysgu, trwy arferion arloesol fel y defnydd pwrpasol o ganeuon, patrymau iaith ac ystod eang o lyfrau darllen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh o ansawdd uchel o ran cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddefnyddio ystod eang iawn o gyfarpar technolegol, sy'n cynnwys gliniadur, llechi electronig, camerâu a chwaraeydd sain. Mae hyn yn gwella medrau TGCh plant yn llwyddiannus iawn ac yn adeiladu ar eu menter i ymholi ac ymchwilio ymhellach ar y we i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd heriol i blant ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae hyn yn amlwg iawn yn yr holl ardaloedd dysgu, lle mae pob gweithgaredd yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau meddwl, creadigol a chorfforol y plant yn ddeallus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio storïau a chymeriadau i alluogi'r plant i ymchwilio i'r gwahaniaethau rhwng pethau ysgafn, sy'n arnofio yn y môr, a'r pethau trwm, sy'n suddo. Maent hefyd yn trafod eu teimladau ynglŷn ag anifeiliaid y gwledydd oer ac os byddent yn hapusach neu'n drist i symud i wlad dwym.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru yn llwyddiannus iawn, sy'n cynnwys coginio ryseitiau Cymreig traddodiadol, gwrando ar chwedlau gwerin, creu cardiau ac ymweld â gŵyl y ddinas yn flynyddol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth y plant o'u diwylliant a'u treftadaeth.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rhagorol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant mewn modd cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn ymweld yn helaeth â'r gymuned leol, fel canu mewn cartref yr henoed a chasglu calennig i ddathlu'r flwyddyn newydd. Mae'r profiadau hyn yn ychwanegu at ddiddordeb a dealltwriaeth gyfredol o'r cwricwlwm a'u milltir sgwâr. Mae ymwelwyr fel fferyllydd, a'r gweinidog, a chyfleoedd i gasglu ar gyfer y banc bwyd, yn addysgu'r plant yn bwrpasol am rolau pobl yn y gymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhannu disgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n ddiwyd â'i gilydd fel tîm o addysgwyr effeithiol. Maent yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae eu dealltwriaeth ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ar gyfer pob sesiwn. Mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiynau.

Mae'r holl ymarferwyr yn herio'r plant yn drylwyr yn ystod y tasgau ffocws a pharhaus. Mae eu defnydd o'r Gymraeg yn llwyddo i fodelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog i bob un plentyn. Maent yn ymyrryd yn ddoeth ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu sbarduno a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu i ddyfalbarhau â'r tasgau mwyaf heriol. Enghreifftiau cadarn o hyn yw'r cydweithio brwd rhwng parau wrth iddynt adrodd ar y tywydd a gwneud marciau i ddarllen fel newyddion, a llenwi cwpanau â dynion eira hyd at 10 i gyfatebu â rhif y cwpan.

Mae'r ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gwneir hyn wrth drafod bywydau pobl ac anifeiliaid mewn gwledydd oer a disgrifio synau anifeiliaid gwahanol ar ddyfais electronig. O ganlyniad, anogir y plant yn bwrpasol i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys gadael y plant i symud yn rhydd rhwng y tu fewn a'r tu allan. Mae hyn yn cyfyngu eu cyfleoedd i brofi'r holl feysydd dysgu ac i ddewis cydweithio ag eraill ar wahanol fathau o heriau.

Mae'r holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn fedrus ac yn sensitif. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel wrth weithio tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r plant a'u trafodaethau a'u sgyrsiau byrlymus â

nhw yn annog cyfranogiad uchel a mwynhad y plant yn llwyddiannus iawn ym mhob gweithgaredd.

Mae'r gweithdrefnau asesu a'r arferion i gofnodi cyflawniadau plant yn gadarn ac yn bwydo'r cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion unigolion. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson fel gweithwyr allweddol ar gyfer grwpiau penodol o blant. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r asesiadau dyddiol yn bwrpasol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae deialog dyddiol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr, sy'n atgyfnerthu hyn yn effeithiol. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad eu plant ar gael i rieni a gofalwyr, sy'n deillio o broffiliau electronig ar bob plentyn. Mae'r lleoliad yn darparu llyfrynnau defnyddiol o'r dystiolaeth hon i'r rhieni, sy'n cynnwys lluniau ac anodiadau pwrpasol. Mae hyn, gydag adroddiad manwl, yn adlewyrchu cynnydd eu plant dros amser yn llwyddiannus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio dulliau cadarnhaol i feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymhlith y plant. Maent yn llwyddo i atgyfnerthu pwysigrwydd y gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i linellu ac aros eu tro i wisgo'u cotiau cyn dechrau dysgu yn yr awyr agored neu cyn iddynt ddefnyddio bowlen i olchi eu dwylo cyn byrbryd.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd effeithiol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol bywiog a brwdfrydig i sicrhau bod y plant yn cyfarch ei gilydd, meddwl yn ofalus am deimladau eraill a dweud diolch pan fo'r angen yn codi.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i unigolion helpu gyda chyfrifoldebau penodol yn ystod yr amser byrbryd. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. Fodd bynnag, er bod y plant yn cael cyfle i osod y llestri yn eu tro, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau annibyniaeth mewn gweithgareddau cyffredin mewn bywyd pob dydd.

Mae gan ymarferwyr drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant ac maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn gadarn. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad a lles y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus fel dangos cwrteisi i'w gilydd wrth fwyta byrbrydau. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Yn ogystal, maent yn trafod pwysigrwydd cadw'n heini yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol, wrth redeg yn y cae ac wrth ddringo cyfarpar anturus, yn effeithio ar eu bywydau'n gadarnhaol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd effeithiol i blant gompostio yn yr ardal allanol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad pwrpasol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion. Maent yn gofyn yn aml am gymorth a chefnogaeth i gwblhau gweithgareddau heb bryder ac yn trafod a sgwrsio gyda'r ymarferwyr yn hyderus.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn adolygu cynnydd y plant yn gyson a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. Mae gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant yn bodoli a chânt eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol pan fo'r angen yn codi.

### Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae ethos y lleoliad yn adlewyrchu awyrgylch croesawgar, hapus a chynhwysol iawn. Mae'r holl ymarferwyr yn gweithredu polisïau ac arferion cadarn, sy'n parchu hawliau pob plentyn ac oedolyn yn y lleoliad yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn trin pawb yn gyfartal ac mae perthynas agos a gweithredol yn bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr. Mae'r awyrgylch teuluol yn cyfrannu'n helaeth at awydd a pharodrwydd y plant i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd ac mae'r lleoliad yn rhan weithredol o'r gymuned leol. Mae hyn yn cyfrannu at safonau ymddygiad cadarnhaol y plant ac yn cael effaith lwyddiannus ar eu deilliannau.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu difyr, sy'n annog y plant i ddangos parch at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a Diwali. Mae'r ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth fyd-eang y plant trwy flasu bwydydd o bob cwr o'r byd fel yr Eidal ac India. Mae'r profiadau hyn, sydd wedi eu cynllunio'n drylwyr i gyfoethogi'r themâu, yn datblygu dealltwriaeth synhwyrol o fywydau pobl eraill i'r plant. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn gwella ymwybyddiaeth y plant o wahaniaethau a thebygrwydd pobloedd ein byd yn bwrpasol.

Mae'r amgylchedd ffisegol a defnydd y lleoliad ohono yn nodwedd eithriadol o gadarn. Mae'r ymarferwyr yn gosod a chlirio'r ardaloedd dysgu, tu fewn a thu fas, yn ddyddiol. Mae eu ymrwymiad a'u dyfalbarhad i gynnal a datblygu'r amgylchedd dysgu'n rheolaidd a chynyddol yn aruthrol. Mae hyn yn arwain at greu amgylchedd dysgu o'r safon uchelaf ac mae trefniadaeth y meysydd dysgu'n ardderchog. Defnyddir arddangosfeydd lliwgar i bortreadu gwaith y plant yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn ddychmygus dros ben o ran gwneud defnydd llawn o'r adeilad a'r amgylchedd allanol. Mae dyluniad yr ardaloedd dysgu, i wneud y defnydd gorau posibl o bob gwagle, yn fwriadus i herio pob plentyn a gwella'u medrau i'r eithaf.

Ceir cyfleusterau helaeth ac ysgogol yn yr ardaloedd awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu yn greadigol gan ddefnyddio yr ardal goedwig ac offer arall fel beiciau, ardaloedd plannu ac offer dringo i fodloni anghenion y plant yn effeithiol dros ben. Mae ymestyn yr ardaloedd addysgu a dysgu i'r awyr agored wedi bod yn gam eithriadol o lwyddiannus. Mae'r ardaloedd wedi gwella'n sylweddol iawn

dros y blynyddoedd diwethaf, o ran darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae'r ardal goedwig a ddatblygwyd ar waelod y cae yn cynnwys ardal gylch â seddi i drafod a gwrando ar ei gilydd. Mae'r ddarpariaeth hon a'r gegin fwd enfawr yn gwella medrau annibynnol a lles y plant yn bwrpasol iawn wrth i'r plant baratoi cacennau a phrydau bwyd dychmygus. Mae pob un o'r ardaloedd dysgu amrywiol a phwrpasol hyn yn ysgogi plant i gyflawni'n llwyddiannus ac mewn awyrgylch diddorol ac atyniadol.

Ceir ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel i fodloni anghenion dysgu'r plant, fel offer TGCh, ystod eang o lyfrau darllen ac adnoddau dysgu pwrpasol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad a'r tir yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda iawn. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn ymestyn yr amgylchedd dysgu'n effeithiol iawn i'r pentref a'r ddinas.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r arweinwyr yn eithriadol o effeithiol wrth hyrwyddo a chynnal gwelliannau dros gyfnod. Mae eu rheolaeth dros gynllunio cwricwlwm ysgogol a sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn ardderchog. Maent yn sicrhau bod disgwyliadau pob un o'r ymarferwyr yn uchel iawn a bod pob un ohonynt yn effeithio ar ddeilliannau'r holl blant yn fwriadus a rheolaidd.

Mae gweledigaeth yr arweinwyr i gynllunio a gosod amgylchedd dysgu ardderchog yn ddyddiol, yn arloesol. Maent yn sicrhau darpariaeth ysgogol, gyffrous ac effeithiol iawn gyda diwylliant cryf a chadarnhaol o godi safonau. Mae'r amcanion strategol, y cynlluniau a'r polisïau yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth o ansawdd uchel, yn bodloni anghenion plant yn fwriadus ac yn hyrwyddo cyflawniadau plant yn gyson. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn arwain tîm cadarn o staff ymroddgar ac uchelgeisiol yn llwyddiannus. Maent yn rhoi cyfeiriad strategol cadarn iawn i arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn deall eu rolau'n llawn ac maent yn gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd fel tîm cydwybodol. Mae hyn yn sicrhau profiadau dysgu gwefreiddiol ac amgylchedd dysgu gwych, sy'n cael effaith fuddiol ar ddeilliannau a phrofiadau'r plant. Mae'r lleoliad yn gweithredu a monitro'r cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol yn erbyn camau gweithredu a graddfeydd amser realistig. Mae hon yn nodwedd ragorol gan ei bod yn cynnwys defnyddio ffynonellau cyllid a grantiau o sefydliadau cymorth amrywiol i ddatblygu darpariaeth arloesol, lwyddiannus a chymunedol. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn neilltuo ymarferwyr i ardaloedd dysgu penodol i sicrhau bod y ddarpariaeth o ran y Gymraeg yn gyson uchel ac yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau Cymraeg y plant.

Mae'r arweinwyr, sy'n cynnwys y pwyllgor rheoli effeithiol a thrylwyr dros ben, yn monitro'r ddarpariaeth yn gydwybodol, gan gynnwys adolygiadau ansawdd a sut mae'r ymarferwyr yn addysgu. Mae hyn yn arfer eithriadol o dda ac yn nodi cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella mewn darpariaeth yn effeithiol. Esiampl weithredol yw'r ffordd mae'r arweinwyr wedi datblygu ymarferwyr unigol ynglŷn â'u datblygiad proffesiynol trwy gynnig cyfleoedd pwrpasol iddynt ddatblygu eu Cymraeg a'u cymwysterau parthed y cyfnod sylfaen a datblygiad plant.

Mae'r pwyllgor rheoli'n gefnogol ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn llwyddiannus iawn ac yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant . Mae'r pwyllgor rheoli yn 'ffrindiau beirniadol' awyddus a deallus. Mae eu gwaith cydwybodol a heriol yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau, trafodaethau a rheoli perfformiad cyson. Maent yn cydweithio â'r arweinwyr i ganolbwyntio'n bwrpasol ar wella'r holl ddarpariaeth fel datblygu'r ardal allanol i sicrhau defnydd cyson o'r cyfarpar. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn llwyddiannus iawn i gynnal a gwella eu harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod yn gyson i drafod yr incwm a chyllid y lleoliad ac maent yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl a chydwybodol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r arweinwyr yn meddu ar wybodaeth ardderchog am arferion presennol y lleoliad ac mae ganddynt weledigaeth glir ynglŷn â sut i wella'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio i greu gwelliannau yn y dyfodol yn rhan reolaidd a phwysig iawn o fywyd gweithredol y lleoliad. Mae'n broses fyw ac effeithiol iawn, sy'n galluogi'r lleoliad i nodi, monitro ac arfarnu ei berfformiad yn hynod o lwyddiannus. Mae pob ymarferwr yn cyfrannu at y broses mewn modd synhwyrol ac adeiladol ac mae eu barnau'n bwysig ac yn cyfrannu at wella'r lleoliad ymhellach. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ymwybyddiaeth eithriadol o dda o gryfderau'r lleoliad a meysydd ar gyfer gwelliant.

Mae'r arweinwyr wedi ymgorffori'r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu ym mywyd dyddiol y lleoliad yn effeithiol dros ben. Maent yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn monitro'r ddarpariaeth ac yn asesu deilliannau'r plant yn rhagorol. Mae'r broses yn cynnwys adolygiadau trylwyr o bob agwedd ar fywyd y lleoliad a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar y safonau a gyflawnir gan blant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant yn effeithiol iawn i ddefnyddio llechi electronig er mwyn iddynt ymchwilio i gyfoethogi'r themâu.

Mae gan y arweinwyr rôl hynod effeithiol yn y broses, sy'n cynnwys adolygiad blynyddol o waith y lleoliad ar gyfer y pwyllgor rheoli. Maent yn rhannu eu dyletswyddau'n effeithiol ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau hunanarfarnu trylwyr a phwrpasol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar arfarniadau gonest o arferion presennol y lleoliad a'r ffordd mae gwelliannau synhwyrol wedi digwydd dros gyfnodau penodol i adlewyrchu'r llwyddiannau. Er enghraifft, mae'r weithred o dargedu gwelliannau yn yr ardaloedd dysgu, tu fewn a thu allan, wedi cael effaith syfrdanol a gwefreiddiol ar brofiadau'r plant.

Mae'r hunanarfarniad yn rhoi ystyriaeth eang i farn plant, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'n arwain at gynllun datblygu trylwyr, cadarn a gonest. Mae'r arweinwyr yn monitro gwelliannau yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddiant mesuradwy. Trwy gynnwys yr holl ymarferwyr yn y broses hon, maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio, a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Er enghraifft, ymatebodd y lleoliad yn ddiwyd i gyngor a hyfforddiant yr awdurdod lleol ar sut i roi asesiadau newydd ar waith a'u cyfatebu'n drylwyr yn erbyn

proffil y cyfnod Sylfaen. Mae'r arfer hon wedi gwella cynllunio profiadau heriol ar gyfer unigolion.

Mae'r arferion a'r gweithdrefnau hunanarfarnu cadarn iawn yn effeithio'n fawr iawn ar y ddarpariaeth, sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau buddiol sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ansawdd uchel y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae defnyddio partneriaid allanol i ddatblygu'r ardal allanol yn enghraifft ardderchog o arloesedd y lleoliad, gan gofio mai tir y neuadd yw'r cae a'r ardal chwarae. Yn ogystal, mae'r arweinwyr wedi comisiynu cryno ddisg o'r plant yn canu hwiangerddi a chaneuon arferol y lleoliad, sydd ar werth i rieni newydd er mwyn iddynt gefnogi dysgu eu plant. Mae arferion hyn yn galluogi'r lleoliad i ddatblygu fel cymuned Gymraeg sy'n cyfrannu at brofiadau dysgu'r plant a'r gymuned ehangach, mewn modd ymarferol a hynod bwrpasol. Mae'r holl weithgareddau a'r cyfarpar ar gael oherwydd y defnydd effeithiol o gyllid a grantiau. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi ennill cyllid ychwanegol oddi wrth fusnesau lleol ac elusennau cymunedol.

Mae gan y lleoliad berthynas hynod adeiladol â'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r lleoliad yn cael ei ddefnyddio fel esiampl o leoliad effeithiol iawn ganddynt. O ganlyniad, maent yn rhannu ei arferion ardderchog mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth gyda lleoliadau eraill yn yr awdurdod lleol a thu hwnt. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn esiampl genedlaethol o sut i ddarparu amgylchedd dysgu gwych ac wedi cael ei ffilmio gan Mudiad Meithrin i raeadru'r llwyddiannau i leoliadau eraill. Mae hyn yn bodoli, er bod angen gosod yr holl weithgareddau a phob sbardun yn ddyddiol, tu fewn a thu allan, cyn rhoi popeth i'w gadw ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae'r partneriaethau effeithiol, yn enwedig â'r gymuned, y pwyllgor rheoli, rhieni a'r awdurdod lleol, yn cyfrannu'n effeithiol iawn at hyfforddiant i eraill drwy arsylwi ac efelychu gwaith y lleoliad. Mae hyn yn cadarnhau bod gallu'r ymarferwyr i greu gwelliannau yn effeithiol iawn. Maent yn symud y ddarpariaeth a deilliannau'r plant ymlaen yn bwrpasol ac yn sicrhau cynnydd a chyflawniadau pwrpasol iawn i'r plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi defnyddio'r clwb tenis lleol i gynnal nosweithiau cymdeithasol i'r plant a'r rhieni.

Mae'r partneriaethau hyn yn hynod lwyddiannus yn ymestyn eu heffaith ymhellach i greu ethos o gynnig darpariaeth ragorol, arloesol a chreadigol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn cydweithredu'n effeithiol ac maent yn weithredol bwysig i fywyd y lleoliad. Yn ogystal, mae cofnodion unigol o gyflawniadau plant a phortffiliau defnyddiol ar gael ganddynt. Mae'r rhain wedi eu seilio ar wahanol arferion y lleoliad, sy'n adlewyrchu safonau'r plant a darpariaeth y lleoliad yn gywir.

Mae gan y lleoliad berthynas hynod gadarnhaol â rhieni. Mae'r cyfathrebu effeithiol iawn yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni yn rheolaidd, sy'n cynnwys llyfryn gwybodaeth defnyddiol iawn am arferion y lleoliad. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a gwefan effeithiol yn creu deialog glir rhwng y lleoliad a'r rhieni. Mae'r trafodaethau a'r defnydd o fanylion personol a'r bartneriaeth â'r cartref yn

llwyddiannus, er enghraifft y ffyrdd y mae'r lleoliad yn ymateb i alergeddau plant a sut maent yn monitro hyn yn dra ofalus i sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau effeithiol iawn â nifer o ysgolion yn yr ardal leol. Mae'r lleoliad yn darparu dogfennaeth ddefnyddiol i sicrhau'r pontio gorau posibl ar gyfer y plant pan fyddant yn dechrau yn yr ysgolion hyn.

Mae gan y lleoliad ran amlwg yn y gymuned leol ac mae ymweliadau gan aelodau'r frigâd dân, yr heddlu a gwasanaethau meddygol a gwyddonol fel y meddyg a'r fferyllydd, yn cefnogi'r dysgu'n dda iawn. Mae'n addysgu'r plant am bwysigrwydd y gwasanaethau brys a swyddogion iechyd mewn cyd-destun lleol. Mae'r partneriaethau gan ymwelwyr a mannau sy'n derbyn ymweliadau gan y lleoliad yn gadarnhaol iawn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn gwneud defnydd ardderchog o adnoddau'r lleoliad. Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor rheoli'n anelu'n gydwybodol at wella pob agwedd ar waith y lleoliad yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r amgylchedd dysgu a phrofiadau dysgu'r plant wedi gwella'n sylweddol dros amser ac yn ysgogi'r plant i wella fel dysgwyr yn llwyddiannus.

Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau uchel a phrofiad cynhwysfawr. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol iawn, a neilltuir ymarferwyr ychwanegol i ardaloedd â chyfrifoldebau penodol i sicrhau'r safonau gorau posibl o gymorth. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn effeithiol iawn i gynllunio profiadau dysgu, addysgu a goruchwylio gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys system 'gweithwyr allweddol' ar gyfer grwpiau penodol o blant

Mae'r ymarferwyr yn datblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol drwy wrando ar, gweithredu ar, gyngor asiantaethau allanol ar sut i wella ymhellach. Yn ogystal, mae'r arweinwyr, trwy eu gweledigaeth glir a'u cynllunio strategol bwriadus, yn cefnogi addysgu a gofal yr holl ymarferwyr yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad, goruchwylio a gwerthuso yn gadarn ac yn arwain at addysgu ac asesu trylwyr.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad fwy na digon o ymarferwyr cymwys sydd wedi cael hyfforddiant buddiol. Maent yn llwyddo i greu cymuned ddysgu eithriadol o gadarn, sydd â diwylliant pwrpasol o gydweithio rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill sy'n gysylltiedig â'r lleoliad. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau cefnogol â'r gymuned leol a'r awdurdod lleol, sydd wedi defnyddio'r arweinwyr i gynnal hyfforddiant ar sut i greu amgylchedd dysgu rhagorol mewn neuadd gyhoeddus.

Mae'r lleoliad yn rheoli'r adnoddau gwych yn greadigol i gefnogi'r dysgu ac i greu gwelliannau. Mae'r ymdrechion dyddiol i osod a datgymalu'r ardaloedd dysgu a'r amgylchedd ysgogol yn ganmoladwy ac yn adlewyrchiad clir o ymrwymiad yr ymarferwyr tuag at y plant. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn defnyddio'r adeilad a'r ardal allanol i ddarparu adnoddau o'r safonau gorau posibl o fewn ei gyllideb.

Mae’r arweinwyr a’r pwyllgor rheoli yn meddu ar ddealltwriaeth glir o’r gyllideb. Maent yn blaenoriaethu’r gwariant yn unol â’r camau arfaethedig ar gyfer gwella yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys defnydd synhwyrol o gyllid grantiau. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a chyflawniadau a lles y plant.

O ystyried yr arferion rhagorol yn y profiadau dysgu, yr amgylchedd dysgu a’r arweinyddiaeth a’r effaith gadarnhaol ar ddeilliannau’r plant, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |